| | |
|---|---|
| Fersiwn | 8 |
| Dyddiad Diwygio Diwethaf | Rhagfyr 2025 |

Iechyd a Diogelwch
Cyngor Rhondda Cynon Taf, gweithio gyda chi, gweithio gyda'n gilydd

gweithio'nwell
workwell

Health and Safety
Rhondda Cynon Taf Council, working with you, working together

# HS 3

# Polisi Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd

| RHEOLI'R DDOGFEN | |
|---|---|
| **ENW'R POLISI** | **Polisi Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd** |
| Adran | Adnoddau Dynol |
| Rhif ffôn | 01443 425531 |
| Dyddiad Cychwynnol Cyflwyno'r Polisi | Mai 1996 |
| Swyddog Adolygu | Adrian Perry |
| Dyddiad Diwygio | Rhagfyr 2027 |
| Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | 2008 |
| | |
| **HANES DIWYGIO** | |
| Dyddiad | Diwygiwyd gan |
| Mai 1996 | Gerwyn Hogben |
| Mawrth 2005 | Gerwyn Hogben |
| Gorffennaf 2016 | Mike Murphy |
| Gorffennaf 2018 | Mike Murphy |
| Mawrth 2021 | Mike Murphy |
| Mawrth 2023 | Stephen Humphreys |
| Rhagfyr 2025 | Adrian Perry |
| | |
| **CYMERADWYO'R DDOGFEN** | |
| Mae'r ddogfen yma wedi cael ei chymeradwyo gan: | Dyddiad Cymeradwyo |
| Uwch Reolwyr Adnoddau Dynol | |
| Carfan y Rheolwyr Corfforaethol | |
| Cabinet | |

CYNNWYS


1. Cyflwyniad ........ 4
2. Datganiad Polisi ........ 4

<u>Canllawiau Polisi</u>

3. Beth yw Sylweddau Peryglus? ........ 5
4. Asesiad Risg COSHH ........ 5
5. Mesurau Atal neu Reoli ........ 6
6. Cyfarpar Diogelu Personol ........ 7
7. Argyfyngau ........ 8
8. Monitro ........ 8
9. Cadw Golwg ar Iechyd ........ 8
10. Hyfforddiant ........ 11
11. Cofnodion i'w Cadw ........ 11
12. Rhestr Wirio ........ 12
13. Prynu ........ 12
14. Cyngor ........ 12

Rhestr Wirio i Reolwyr ........ 13

## 1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r datganiad polisi yma wedi cael ei lunio er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).

## 2. **DATGANIAD POLISI**

2.1 Caiff pob cam rhesymol ei gymryd er mwyn sicrhau na fydd gweithwyr yn dod i gysylltiad â sylweddau peryglus i iechyd, neu y caiff sylweddau eu rheoli er mwyn cydymffurfio â therfynau statudol.

2.2 Os na fydd modd rheoli sylweddau yn ddigonol drwy gynllunio, caiff Cyfarpar Diogelu Personol priodol (CDP) eu rhoi am ddim ar ôl ymgynghori â gweithwyr a/neu eu cynrychiolwyr.

2.3 Caiff pob gweithiwr wybodaeth gynhwysfawr am y ffyrdd y byddan nhw'n dod i gysylltiad â sylweddau peryglus i iechyd ac am y tebygolrwydd o hynny, a chaiff cyfarwyddiadau cysylltiedig eu rhoi.

2.4 Mae canllawiau penodol sy'n ymdrin â defnyddio sylweddau peryglus wedi cael eu hatodi i'r datganiad polisi yma.

2.5 Pob Cyfarwyddwyr neu bob Pennaeth Gwasanaeth unigol sy'n gyfrifol am roi gofynion y polisi ar waith ac am baratoi strategaeth weithredu.

**CANLLAWIAU POLISI**

## 3. BETH YW SYLWEDDAU PERYGLUS?

3.1 Unrhyw beth sy'n gallu niweidio gweithwyr tra eu bod yn gweithio, ac sydd ddim yn cael ei reoli'n gywir, yw ystyr sylweddau peryglus. Mae modd dod o hyd iddyn nhw ym mhob gweithle, mwy neu lai, ac maen nhw'n gallu cynnwys:

- sylweddau a gaiff eu defnyddio yn uniongyrchol mewn gweithgareddau gwaith, e.e. glud, paent a chyfryngau glanhau;
- sylweddau sy'n ffurfio yn sgil gweithgareddau gwaith, e.e. mwg o sodro a weldio;
- micro-organebau niweidiol sy’n bresennol y mae modd iddyn nhw achosi haint, adwaith alergedd neu sy’n wenwynig;
- a sylweddau naturiol, e.e. gwaed, bacteria a llwch pren.

3.2 Yn achos y mwyafrif helaeth o gemegau masnachol, bydd label rhybudd yn nodi p'un a yw COSHH yn berthnasol.

3.3 Deddfwriaeth arall sy'n ymdrin ag asbestos a phlwm, nid COSHH.

## 4. ASESIAD RISG COSHH

4.1 Mae hwn yn elfen sylfaenol o'r Rheoliadau COSHH a chaiff y gofyniad yma ei adlewyrchu yng ngeiriad gofynion asesu risg Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith.

Yn ôl yr egwyddor, rhaid i gyflogwyr beidio ag ymgymryd ag unrhyw waith a all beri i'w gweithwyr ddod i gysylltiad â sylweddau peryglus i iechyd hyd nes:

- bod asesiad digonol o'r risgiau i iechyd gweithwyr oherwydd y gwaith hwnnw wedi cael ei gwblhau; a
- bod y camau sydd eu hangen i gydymffurfio â'r Rheoliadau wedi cael eu nodi;
- a bod y camau hynny yn cael eu cymryd.

4.2 Dyma'r camau i'w dilyn:

- nodi swyddi, prosesau a gweithdrefnau gwaith sy'n cynnwys

defnyddio neu greu sylweddau peryglus i iechyd;

- nodi pob sylwedd peryglus cysylltiedig;
- nodi'r ffyrdd y caiff y sylweddau eu cadw a'u defnyddio;
- nodi'r ffyrdd y gallai'r sylweddau peryglus fynd i mewn i'r corff;
- nodi graddau tebygol y cysylltiad;
- nodi'r effeithiau niweidiol neu'r problemau ran salwch y mae'n eu hachosi;
- nodi'r bobl a fydd mewn perygl, e.e. gweithwyr, is-gontractwyr, ymwelwyr;
- nodi effeithiolrwydd mesurau rheoli presennol;
- nodi'r risg i weithwyr os bydd mesurau rheoli'n dirywio neu'n methu neu os bydd argyfwng;
- penderfynu p'un a yw'r sylwedd yn peri risg i iechyd neu beidio;
- ac yn olaf, heblaw asesiad syml y mae modd ei egluro'n hawdd pan fydd angen, dylai pob asesiad gael ei wneud yn ysgrifenedig, dylen nhw gael eu cadw a dylen nhw fod ar gael yn hawdd.

4.3 Rhaid penodi pobl gymwys i gynnal asesiadau risg COSHH. Rhaid i'r rheini a gaiff eu penodi feddu ar arbenigedd cymesur â'r risg.

4.4 Mae templedi asesiad risg COSHH ar gael gan y Garfan Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

## 5. <u>MESURAU ATAL NEU REOLI</u>

5.1 Dyma'r mesurau y mae modd eu cymryd i osgoi risgiau neu i'w rheoli:

- cwestiynu p'un a oes angen defnyddio sylwedd sydd wedi cael ei nodi'n berygl difrifol i iechyd h.y. dileu'r risg os bydd modd;
- pan nad oes modd dileu sylwedd, defnyddio ffurf lai peryglus, neu sylwedd llai peryglus, os oes un ar gael;
- defnyddio peiriannau neu systemau gweithio er mwyn lleihau'r sylwedd cymaint â phosibl, ei atal rhag cael ei greu neu ei gyfyngu rhag cael ei greu;
- dileu halogyddion yn yr awyr drwy un o'r dulliau canlynol:

a) gosod amgaead rhannol a system echdynnu awyr leol;
b) system echdynnu awyr leol;
c) a systemau gwyntyllu cyffredinol digonol.

- dileu halogyddion ac atal llygru drwy'r dulliau canlynol:

  a) rhoi sylweddau i gadw, a chael gwared â nhw, mewn modd diogel;
  b) cael gwared â dillad halogedig mewn modd diogel;
  c) darparu cyfleusterau golchi digonol.

- atal gweithwyr ac aelodau o'r cyhoedd rhag mynd i mewn i fannau halogedig oni bai bod angen iddyn nhw wneud hynny;
- lleihau hyd y cyfnod y bydd gweithwyr yn dod i gysylltiad â'r sylwedd;
- gwahardd bwyta, yfed ac ysmygu mewn mannau halogedig;
- darparu cyfleusterau lles digonol a'u cynnal a chadw;
- a rhoi cyfarpar diogelu personol addas os oes angen yn unig.

## 6. <u>CYFARPAR DIOGELU PERSONOL</u>

6.1 Pan nad oes modd rheoli sylwedd drwy ddulliau eraill, rhaid defnyddio cyfarpar diogelu personol (CDP) addas.

6.2 Dylai'r CDP reoli cysylltiad y gwisgwr â'r sylwedd peryglus yn ddigonol.

6.3 Mae Cyfarpar Diogelu Personol yn cynnwys:

- cyfarpar diogelu'r system anadlu;
- dillad amddiffynnol;
- esgidiau amddiffynnol;
- a chyfarpar diogelu'r llygaid.

6.4 Wrth ddewis y cyfarpar, dylai'r pwyntiau canlynol gael eu hystyried:

- gallu'r deunydd i atal y sylwedd peryglus rhag ei dreiddio;

- digonolrwydd ac addasrwydd ei ddyluniad, e.e. profi ffit wyneb
- yr amgylchedd ynddo y caiff ei ddefnyddio;
- ac unrhyw nodweddion sy'n peri iddo ryddhau llwch.

## 7. ARGYFYNGAU

7.1 Pan fo'n bosibl y gallai sylwedd peryglus gael ei ryddhau neu ei ollwng yn ddamweiniol i raddau helaethach o lawer na'r hyn sy'n gysylltiedig â gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd, a hynny er gwaethaf mesurau rheoli, rhaid llunio cynllun argyfwng i sicrhau rheolaeth ac i ddiogelu iechyd gweithwyr. Rhaid i hyn gynnwys:

- yr offer cywir i ddelio â'r argyfwng (e.e. gollyngiadau), gan gynnwys offer amddiffynnol a chynnyrch diheintio;
- y gweithdrefnau cywir i ddelio ag anafiadau;
- y bobl gywir wedi'u hyfforddi i gymryd camau;
- y trefniadau cywir i ddelio â'r gwastraff a gaiff ei gynhyrchu

## 8. MONITRO

8.1 Cyn belled â bod hynny'n ymarferol yn rhesymol, dylai person cymwys ym mhob uwchadran fonitro cysylltiad gweithwyr â sylweddau peryglus.

8.2 Rhaid cynnal gwaith monitro, er enghraifft, yn yr amgylchiadau canlynol:

- pan fo'n bosibl y gallai fod perygl difrifol i iechyd oherwydd methiant mesurau rheoli neu oherwydd dirywiad ynddyn nhw;
- pan fo raid sicrhau nad yw cysylltiad gweithwyr â sylwedd yn uwch na'r Terfyn Sylwedd yn y Gweithle neu'r Terfyn Sylwedd Galwedigaethol;
- pan fydd raid cwblhau gwiriad ychwanegol o effeithiolrwydd unrhyw fesur rheoli;
- a phan fo'r gwaith yn cynnwys defnyddio unrhyw garsinogen neu unrhyw sylweddau neu brosesau sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 5 o'r rheoliadau COSHH.

## 9. CADW GOLWG AR IECHYD

9.1 Cedwir golwg ar iechyd gweithwyr pan fydd yn briodol yn unol â gofynion y rheoliadau COSHH.

9.2 Mae hi'n gyfrifoldeb ar y rheolwr perthnasol, mewn ymgynghoriad â'r Uned Iechyd a Lles Galwedigaethol pan fo angen, i benderfynu pa weithwyr mae angen eu hatgyfeirio i'r Uned er mwyn cadw golwg ar eu hiechyd. Y rheolwr hwnnw, hefyd, sy'n gyfrifol am drefnu i'r atgyfeiriadau gael eu gwneud.

9.3 Dyma amcanion cadw golwg ar iechyd:

- gwirio iechyd gweithwyr unigol drwy ganfod newidiadau annymunol iddo oherwydd sylweddau peryglus i iechyd cyn gynted â phosibl;

- casglu, diweddaru a defnyddio data a gwybodaeth er mwyn canfod a gwerthuso peryglon i iechyd fel bod modd gweithredu er mwyn atal clefyd mwy difrifol rhag datblygu;
- a gwirio p'un a yw mesurau rheoli yn gweithio yn effeithiol drwy roi adborth ar gywirdeb yr asesiad risg ac effeithiolrwydd mesurau rheoli er mwyn nodi lle y mae angen camau ychwanegol i reoli'r risg.

Pan ddaw i'r amlwg bod gwaith yn effeithio ar iechyd gweithiwr mewn ffordd annymunol yn sgil cadw golwg ar ei iechyd, rhaid i reolwyr weithredu i ddiogelu iechyd y gweithiwr hwnnw.

9.4 Cyn cadw golwg ar iechyd, dylai rheolwyr benderfynu ar y canlynol:

- y meini prawf gweithredu;
- opsiynau gweithredu, e.e. ailasesu'r risg, gwella dulliau rheoli, cyfeirio unigolion er mwyn iddyn nhw gael diagnosis/triniaeth, dosrannu unigolion yn wahanol;
- a'r dulliau o gadw cofnodion iechyd ac o ddadansoddi a dehongli canlyniadau camau cadw golwg ar iechyd.

9.5 Dylid cadw golwg ar iechyd:

- pan fydd asesiad risg yn dangos bod angen;
- pan fydd yn bosibl y daw gweithiwr i gysylltiad ag un o'r sylweddau, neu'n gweithio yn rhan o un o'r prosesau, sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 6 y rheoliadau COSHH os yw amodau penodol rheoliad 11 (2) (a) yn berthnasol;
- a phan fydd risg weddilliol o niwed i weithiwr oherwydd sylweddau peryglus, ar ôl gweithredu pob dull priodol o'i weithredu, ac ar ôl i dri

gofyniad rheoliad 11 (2) (b) gael eu bodloni.

9.6 Yn yr achos lleiaf, gallai camau cadw golwg ar iechyd gynnwys cadw cofnod iechyd unigol, e.e. i gynnwys carsinogenau hysbys neu dybiedig (ac eithrio'r rheiny sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 6 y rheoliadau COSHH).

Serch hynny, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, mae angen cymryd mwy o gamau na hyn. Bydd cadw golwg ar iechyd yn cynnwys datblygu system barhaus addas er mwyn canfod arwyddion cynnar o salwch cysylltiedig â'r gwaith ac er mwyn gwirio bod camau rheoli yn diogelu. Er mwyn gwneud hyn, rhaid dewis o blith amrediad o weithgareddau a allai gynnwys rhai o'r camau canlynol neu bob un ohonyn nhw:

- adolygu gwybodaeth am gysylltiad gweithwyr â sylweddau, e.e. canlyniadau monitro'r awyr neu iechyd ac unrhyw salwch cysylltiedig;
- adolygu'r asesiad risg a'i ddiwygio pan fydd angen;
- archwilio gan berson cyfrifol megis goruchwyliwr neu reolwr, e.e. archwilio'r croen am lid y croen (dermatitis);
- ymholi ynghylch symptomau, arolygiad neu archwiliad gan berson cymwysedig addas, e.e. arbenigwr iechyd galwedigaethol. Byddai modd i hyn gynnwys camau syml megis rhoi holiaduron ynghylch symptomau i'w cwblhau gan weithwyr, neu archwiliadau clinigol i asesu effeithiau biolegol cynnar, e.e. profion o'r ysgyfaint i ganfod asthma;
- meddyg yn cadw golwg ar iechyd, h.y. dull penodol o gadw golwg ar iechyd sy'n cynnwys goruchwyliaeth meddyg penodedig at ddibenion rheoliad 11 (5) y rheoliadau COSHH. Byddai modd i hyn gynnwys archwiliad meddygol.

9.7 Rhaid cadw cofnodion cadw golwg ar iechyd am o leiaf 40 o flynyddoedd ar ôl dyddiad y cofnod diwethaf.

9.8 Caiff y rhaglen cadw golwg ar iechyd ei rheoli gan yr Uned Iechyd a Lles Galwedigaethol, law yn llaw â rheolwyr penodol, yn ôl yr angen.

Bydd yr Uned Iechyd a Lles Galwedigaethol a/neu'r penaethiaid penodol, yn datblygu a rhoi ar waith y gweithdrefnau sydd eu hangen, fel sy'n briodol, er mwyn sicrhau y caiff y rhaglen cadw golwg ar iechyd ei rheoli yn y modd mwyaf addas.

## 10. HYFFORDDIANT

10.1 Rhaid rhoi gwybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant digonol er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o'r peryglon i iechyd oherwydd sylweddau yn y gweithle ac o bwysigrwydd y mesurau rheoli sydd wedi'u gweithredu. Rhaid hefyd roi gwybodaeth i bobl eraill os yw'n bosibl yr effeithir arnyn nhw, megis contractwyr, gweithwyr dros dro ac ymwelwyr.

10.2 Dylai rheolwyr gweithwyr sy'n defnyddio sylweddau peryglus i iechyd gael hyfforddiant ychwanegol er mwyn sicrhau y caiff risgiau eu rheoli'n gywir.

## 11. COFNODION I'W CADW

11.1 Yn unol â rheoliadau COSHH, dylai'r cofnodion canlynol gael eu cadw:

- rhestr o sylweddau peryglus;
- asesiad o'r risgiau o ran dod i gysylltiad â sylweddau;
- mesurau rheoli sydd wedi cael eu gweithredu;
- Profi LEV (o leiaf bob 14 mis)
- dulliau o ddefnyddio mesurau rheoli ac o roi gwybod am namau/problemau;
- a chynnal a chadw, archwilio, profi ac atgyweirio mewn perthynas â mesurau rheoli. Rhaid cadw'r cofnod gwreiddiol, neu grynodeb ohono, am bum mlynedd o leiaf;
- cofnodion o fonitro cysylltiad y gweithlu yn gyffredinol â sylwedd, a chofnodion sy'n brawf o fesurau rheoli, am bum mlynedd; rhaid cadw cofnodion o gysylltiad gweithiwr penodol â sylwedd am 40 o flynyddoedd;
- cofnod iechyd gweithiwr unigol mewn perthynas â'i gysylltiad gwirioneddol neu gysylltiad posibl â sylwedd am 40 o flynyddoedd ar ôl y cofnod diwethaf;
- gwybodaeth am hyfforddiant sy'n cael ei roi i weithwyr;
- a phan fo'n bosibl y bydd gweithiwr yn dod i gysylltiad â sylwedd peryglus neu sawl sylwedd peryglus i raddau helaethach o lawer na'r hyn sy'n gysylltiedig â gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd, trefniadau ar gyfer damweiniau, digwyddiadau ac argyfyngau.

- dylid cynnal gwaith cynnal a chadw, archwiliadau a phrofion o leiaf unwaith y mis.

## 12. RHESTR WIRIO

12.1 Dyma'r saith cam pwysicaf i'w hystyried yn unol â COSHH:

- adnabod y perygl;
- asesu'r risg;
- dileu, atal neu reoli'r risg;
- cynnal a monitro'r camau rheoli;
- monitro iechyd y gweithlu;
- sicrhau bod asesiadau a chamau rheoli yn gyfredol;
- a rhoi gwybodaeth i weithwyr a'u hyfforddi.

## 13. PRYNU

13.1 Rhaid cadw rhestr gyfredol o sylweddau sydd wedi'u cymeradwyo drwy asesiadau yn unol â'r rheoliadau COSHH, a lle y mae modd cael y sylweddau hyn. Rhaid i hon fod ar gael i'r gweithwyr hynny sy'n prynu cynhyrchion i'w defnyddio yng ngweithgareddau gwaith y Cyngor.

## 14. CYNGOR

14.1 Mae modd cael cyngor ar weithredu'r polisi yma gan y Garfan Iechyd a Diogelwch, Adnoddau Dynol, Tŷ Elái, CF40 1NY, ffôn 01443 425531.

Ffôn 01443 425531 neu e-bost:
CarfanIechydaDiogelwch@rctcbc.gov.uk

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg

## RHESTR WIRIO I REOLWYR

| | | ✓ Wedi'i gyflawni? | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Dd/ B | ✓ | X |
| • | Mae rhestr wedi cael ei llunio o'r holl sylweddau peryglus a gaiff eu defnyddio neu eu cadw yn y gweithle. | | | |
| • | Mae asesiad risg COSHH wedi cael ei gwblhau ar bob safle lle y caiff sylweddau peryglus eu defnyddio. | | | |
| • | Mae gweithdrefnau ar waith at ddibenion sicrhau y caiff sylweddau newydd eu hasesu cyn iddyn nhw gael eu defnyddio. | | | |
| • | Mae camau wedi cael eu cymryd o ganlyniad i'r asesiad er mwyn lleihau neu reoli'r risg. | | | |
| • | Mae pob eitem o gyfarpar diogelu personol (CDP) sydd ei hangen wedi cael ei rhoi i weithwyr sy'n defnyddio sylweddau peryglus neu sy'n dod i gysylltiad â nhw. | | | |
| • | Mae gwybodaeth wedi cael ei rhoi i weithwyr am sylweddau peryglus y maen nhw'n eu defnyddio neu y maen nhw'n dod i gysylltiad â nhw, ac am y risgiau cysylltiedig. | | | |
| • | Mae camau cadw golwg ar iechyd wedi cael eu gweithredu pan fo hynny'n briodol. | | | |
| • | Mae gwybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant wedi cael eu rhoi i weithwyr a allai ddod i gysylltiad â sylweddau peryglus. | | | |
| • | Mae gweithdrefnau wedi cael eu rhoi ar waith, pan fo angen gwneud hynny, ar gyfer cael gwared â sylweddau peryglus. | | | |
| • | Mae cynlluniau ar waith ar gyfer newid sylweddau niweidiol i'r amgylchedd yn y gweithle, neu ar gyfer cael gwared â nhw, yn raddol (e.e. halon, clorofflworocarbonau (CFfCau) ac ati), | | | |
| • | Mae pob cynhwysydd, bag, deunydd lapio ac ati sy'n cynnwys sylwedd peryglus wedi cael ei farcio'n amlwg. | | | |
| • | Pan fo'n briodol, mae gweithdrefnau monitro wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn monitro cysylltiad gweithwyr â sylweddau peryglus i iechyd. | | | |
| • | Oes cofnodion priodol yn cael eu cadw? | | | |
| • | Oes gweithdrefnau monitro ar waith i sicrhau bod gofynion y polisi yn cael eu bodloni? | | | |

| | |
|---|---|
| Wedi'i llenwi gan: ____________________<br>(Llofnod) | Wedi'i gadarnhau gan: ____________________<br>(Llofnod) |
| Enw: ____________________<br>(Llythrennau bras) | Enw: ____________________<br>(Llythrennau bras) |
| Swydd: ____________________ | Swydd: ____________________ |
| Dyddiad: ____________________ | Dyddiad: ____________________ |